



Annwyl Cwsmer

**Swyddfa Bost® Llansannan
Canol Y Llan, Llansannan, Dinbych, LL16 5HG**

Cau Gwasanaeth Dros Dro

Rwy'n ysgrifennu atoch i roi gwybod fod y Postfeistr o Swyddfa Bost Y Fflint, yn anffodus, wedi penderfynu rhoi'r gorau i gynnal Gwasanaeth Gwesteiol yn y lleoliad uchod. Felly, fe gaeodd y gwasanaeth hwn dro ddydd Dydd Llun 23 Ebrill 2018 am 16:30. Mae'n ddrwg gennyf am fod yn hwyr yn rhoi gwybod i chi'r tro hwn.

Mae darparu gwasanaeth Swyddfa'r Post i'n cwsmeriaid yn y gymuned leol yn bwysig i ni, a byddwn yn dal i weithio'n galed i adfer gwasanaethau yn yr ardal cyn gynted â phosibl. Byddem yn croesawu unrhyw geisiadau gan berchenogion siop a fyddai â diddordeb mewn rhedeg cangen yn lleol ar ein rhan. Mae'r swydd wag yn cael ei hysbysebu ar hyn o bryd ar ein gwefan www.runapostoffice.co.uk a rhoddir ystyriaeth ofalus i bob cais. Os ydych chi'n gwybod am unrhyw un a fyddai â diddordeb, byddwch cystal a rhannu'r ddolen â nhw.

Hoffwn bwysleisio ein bod wrthi'n gweithio'n galed i gadw'r cyfnod cau mor fyr â phosibl ac rydym wrthi yn ystyried dewisiadau ar gyfer adfer gwasanaeth Swyddfa'r Post yn y gymuned leol. Wrth wneud hyn, mae'n bwysig gwneud yn siŵr y bydd unrhyw wasanaeth yn y dyfodol yn gynaliadwy i'r sawl a fydd yn ei redeg, ac i Swyddfa'r Post Cyfyngedig.

Os oes gennych unrhyw gwestiynau am hyn, byddwch cystal ag ysgrifennu ataf trwy'r Tîm Cyfathrebu yn y cyfeiriad a nodir isod. Sylwch, os gwelwch yn dda, na fydd eich sylwadau yn cael eu cadw'n gyfrinachol oni fyddwch yn gofyn yn benodol i ni wneud hynny wrth nodi'n glir arnynt: "Yn Gyfrinachol/In Confidence".

Byddai unrhyw newidiadau i'r gwasanaeth yn y dyfodol yn cael eu gwneud yn unol â'n Cod Ymarfer sydd yn nodi sut rydym yn cyfathrebu ac yn esbonio newidiadau i rwydwaith Swyddfa'r Post. Mae rhagor o wybodaeth am y Cod ar ddiwedd y llythyr hwn. Os oes gan bobl eraill yn eich sefydliad ddiddordeb yn y cynllun hwn, byddwch cystal â'u hysbysu.

Hoffwn ymddiheuro am yr anhwylystod a allai ddigwydd oherwydd y cau dros dro. Gobeithiwn y bydd ein cwsmeriaid yn dal i ddefnyddio Swyddfa Bost. Mae'r manylion llawn am wasanaethau eraill Swyddfa'r Post yn yr ardal ar ddiwedd y llythyr hwn.

Byddaf yn ysgrifennu atoch eto unwaith y bydd gennyf unrhyw newyddion am ein cynlluniau ar gyfer darparu gwasanaeth yn y dyfodol.

Yr eiddoch yn gywir

Carol Williams

**Carol Williams
Rheolwraig Ardal dros Newidiadau i'r Rhwydwaith**

Sut i gysylltu â ni:

comments@postoffice.co.uk
FREEPOST Your Comments
www.postofficeviews.co.uk

I gael yr wybodaeth hon mewn fformat gwahanol, er enghraifft, print bras, sain neu Braille, byddwch cystal â chysylltu â'r Llinell Gymorth i Gwsmeriaid ar 03452 66 01 15 neu Ffôn Testun 03457 22 33 55.

Cafodd y broses gyfathrebu hon ei chytuno â chorff gwarchod statudol annibynnol y defnyddwyr, sef y Cyngor ar Bopeth a Chyngor ar Bopeth yr Alban ym Mhrydain, a Chyngor y Defnyddwyr yng Ngogledd Iwerddon. Mae'n cael ei gweithredu yn unol â'n Cod Ymarfer ar gyfer newidiadau i rwydwaith Swyddfa'r Post, a gytunwyd â nhw. Os hoffech gael copïau o'r Cod, maent ar gael mewn canghennau, neu wrth gysylltu â ni neu wrth ymweld â'n gwefan yn: postofficeviews.co.uk. Os ydych o'r farn nad ydym wedi dilyn y broses yn gywir ac yn dymuno gwneud cwyn, byddwch cystal ag anfon llythyr neu ebost atom wrth ddefnyddio'r manylion cyswllt yn ein posteri a llythyrau ac esbonio pam. Byddwn yn archwilio eich cwyn ac yn rhoi ateb i chi cyn gynted â phosibl. Byddwn yn rhoi'r manau cyswllt perthnasol ar gyfer y corff gwarchod defnyddwyr i chi. Felly, os ydych yn dal yn anfodlon ar ôl derbyn ein hymateb, gallwch ofyn iddynt am eu cymorth.

Canghennau eraill:

Swyddfa Bost® Llanfair Talhaearn

Sgwâr y Swan
Llanfair Talhaearn
Abergele
LL22 8RY

Oriau agor

Llun	09:00 – 13:00 14:00 – 17:30
Mawrth	09:00 – 13:00 14:00 – 17:30
Mercher	09:00 – 13:00
Iau	09:00 – 13:00 14:00 – 17:30
Gwener	09:00 – 13:00 14:00 – 17:30
Sadwrn	09:00 – 12:30
Sul	Ar gau

Gwasanaethau

Bydd yr un dewis o wasanaethau ar gael o hyd, yn ogystal ag Ewros a'r Loteri Genedlaethol, ond dim dewis cynhwysfawr o Arian Teithio, Treth y Car, Gwirio ac Anfon Pasbort ac Yswiriant Teithio Ar Gais.

Mynediad a chyfleusterau

Mae gan y gangen hon ddrws llydan a mynediad gwastad wrth y fynedfa. Y tu mewn, mae yna ddolen glyw a lle i gadair olwyn.

Trafnidiaeth/parcio

Mae modd parcio ar yr heol y tu allan i'r gangen a gerllaw iddi. Mae yna wasanaeth bws cyfyngedig ar gael rhwng cangen Llansannan a'r gwasanaeth Swyddfa'r Post hwn. Mae'r arhosfan bysiau agosaf 10 metr i ffwrdd.

Llwybr

Mae'r gwasanaeth Swyddfa'r Post hwn tua 3.5 milltir o gangen Llansannan, ar hyd tir bryniog.

Swyddfa Bost Llangernyw

Rhyd-y-foel
Llangernyw
Abergele
LL22 8PP

Oriau agor

Llun	09:00 – 13:00
Mawrth	09:00 – 13:00
Mercher	09:00 – 12:00
Iau	09:00 – 11:00
Gwener	09:00 – 12:00
Sadwrn	09:00 – 12:00
Sul	Ar gau

Gwasanaethau

Bydd yr un dewis o wasanaethau ar gael o hyd, ond ac eithrio Treth y Car, dewis cynhwysfawr o Arian Teithio, Treth y Car, Gwirio ac Anfon Pasbort ac Yswiriant Teithio Ar Gais.

Mynediad a chyfleusterau

Mae gan y gangen hon ddrws llydan a gris wrth y fynedfa. Y tu mewn mae yna ddolen glyw.

Trafnidiaeth/parcio

Mae modd parcio ar yr heol y tu allan i'r gangen a gerllaw iddi. Mae yna wasanaeth bws cyfyngedig ar gael rhwng cangen Llansannan a'r gwasanaeth Swyddfa'r Post hwn. Mae'r arhosfan bysiau agosaf 250 metr i ffwrdd.

Llwybr

Mae'r gwasanaeth Swyddfa'r Post hwn tua 4.5 milltir o gangen Llansannan, ar hyd tir bryniog.